



TAFLEN FFEITHIAU MEISTR GLASWELLT

Bïff a Defaid 2023

Dechreuwch gyda'ch priddoedd -

- › Draenio
- › Cloddio twll - asesu iechyd y pridd, poblogaeth pryfed genwair, arwyddion o gywasgiad
- › Prawf pridd - mynegeion PH, P, K cywir ac asesu lefelau Deunydd Organig

Glaswellt yw'r ffynhonnell rhataf o borthiant i anifeiliaid cnoi cil os caiff ei reoli'n gywir!

Ail-hadu

- › Gwella cnwd ac ansawdd trwy gyflwyno mathau newydd i wyndwn a gwella effeithlonrwydd Nitrogen
- › Allbwn uwch/ha a lleihau porthiant a brynir
- › Cyfle i fynd i'r afael â'r baich chwyn
- › Argymhellir torri cnwd (fel brassica) cyn ail-hadu'n llawn i gael y canlyniad gorau
- › Tros hadu glaswellt a meillion gwyn yw'r opsiwn rhataf

Mae nitrogen yn dal yn rhad o'i gymharu â phorthiant wedi'i brynu i mewn (Ond peidiwch â dweud wrth bawb!)




Treialon Fferm yn Harper Adams 2014-2018

- › Roedd ychwanegu meillion coch at y gymysgedd glaswellt yn gyson yn ychwanegu >2tDM/ha y flwyddyn
- › Roedd ychwanegu meillion gwyn at y gymysgedd sylfaen yn ychwanegu=+1.5t/DM ha
- › Roedd ychwanegu Meillion Coch + Gwyn at y gymysgedd sylfaen yn ychwanegu = +3.5 T DM/ha
- › Dim ond 45% PRG yw'r cymysgedd cnydau uchaf, rhywbeth i feddwl amdano

Gwybodaeth Ddefnyddiol

- Mae glaswellt yn cael ei fesur mewn kgDM/ha
- Gall Hectar dyfu rhwng 4-15 tunnell DM/ha
- Mae twf yn amrywio o 0-120kgDM/ha
- Mae gorchudd glaswellt yn amrywio rhwng 1400-5000 kgDM/ha
- Gorchuddion = Faint o laswellt sydd mewn cae
- Gorchudd cyfartalog = KgDM/ha ar gyfartaledd mewn nifer o gaeau
- Dros ben = glaswellt yn cael ei adael ar ôl pori
- Galw = KgDM/Diwrnod sydd ei angen ar anifail neu grŵp o anifeiliaid yn dibynnu ar bwysau'r corff a'r cam cynhyrchu




Cymysgedd o hadau

- › Mae'n hanfodol dewis y cymysgedd cywir o hadau glaswellt ar gyfer eich system
- › Defnyddiwch y mathau gorau oddi ar y "Rhestr Glaswellt a Meillion a Argymhellir"
- › Gwyndwn llysiuol cymysg - llyriad a ysgellog i wrthsefyll sychder yn well?

Mesur Glaswellt

- › Cyflenwi'r Swm a'r Ansawdd cywir o borthiant ar yr amser cywir fel y gall stoc fynegi eu potensial geneteg.
- › Rydym yn mesur glaswellt gan ddefnyddio plât mesur neu system torri a phwysu ac yn cofnodi data ar feddalwedd fferm fel AgriNet / Farmax ac ati
- › Mae'r ffigyrau a gawn yn cynnwys
 - Gorchudd Fferm ar gyfartaledd: faint o laswellt sydd ar ein fferm
 - Twf Glaswellt: Cynnydd neu Leihad? A yw'n uwch neu'n is na'n galw?



Llinell binc = Cromlin twf glaswellt trwy gydol y flwyddyn
Llinell las = Galw am y rhan fwyaf o systemau da byw trwy gydol y flwyddyn.

Dylunio system bori

- › Lleihau nifer y grwpiau o dda byw a chynyddu maint y stoc
- › Padogau o'r un faint os yw'n bosibl
- › Pob padog â gyflenwad dŵr
- › Meddalwedd am ddim i helpu - Google maps, Google earth pro, Field Margin etc.

Mae Dŵr yn hanfodol ar gyfer llwyddiant system

- Maint pibell - 20-25mm ar gyfer defaid / 25 - 32mm ar gyfer gwartheg
- Cyflenwi trwy'r prif gyflenwad / Disgyrchiant wedi'i fwydo o danc dal mawr / Pwmp Solar / pwmp Trydan



Rheolau Cyffredinol Cynllun Systemau pori

- › Cyfanswm arwynebedd = Galw Grŵp (kgDM) ÷ Twf Posibl (kgDM/ha)
- › Nifer yr Anifeiliaid sydd eu hangen = Arwynebedd (ha) x Twf Posibl (kgDM/ha) / Galw fesul anifail (kgDM/hd)
- › Targed Hyd y Pori Cylchdro = Porfa sydd ar gael (kgDM/ha) ÷ Twf Posibl (kgDM/ha)
- › Nifer y padogau = Hyd y Cylchdro (diwrnodau) ÷ Amser pori a ddymunir (diwrnodau)
- › Maint Padog Cyfartalog (ha) = Cyfanswm Arwynebedd (ha) ÷ Nifer y Padogau

Production Potential of Managed Grazing

Grazing 'on time' (Days)	Annual Yield (Tonnes DM Ha)	Utilisation *	Total Utilised DM (Tonnes DM Ha)	Production Increase
Set Stocking	6	70%	4.2	-
3 - 7	8	80%	6.4	50%
2 - 3	10	85%	8.5	100%
1	12	90%	10.8	150%

(30/5/23) Mae 2 dunnell o Ddeunydd Sych o Borfa/ ha yn Gyfwerth â:
8 byrn crwn o silwair = £360
Neu
580kg o Wrtaitth Amonia Nitrad= £400
Neu
2.2 Tunell o Ddwysfwyd= £800

Conclusion: High performing farmers are...

- Innovative
- Business minded
- Effective at benchmarking
- Collaborative
- Effective at controlling costs



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

